WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyhoeddwyd: Mai 2013
Cyfeirnod y ddogfen: 249A2013



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o bron i £5.5 biliwn a drosglwyddir gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a phenodol. Yn ei thro, mae llywodraeth leol yn codi £2.1 biliwn pellach drwy'r dreth gyngor ac ardrethi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif, drwy hybu gwelliannau, fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymrwymedig i nodi a lledaenu arfer da ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Huw Lloyd Jones a Gwilym Bury o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

# Cynnwys

**Adroddiad cryno ac argymhellion** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 6

Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da ar nifer o agweddau ar gyflawni ei raglen wella ac mae ei adroddiadau cyhoeddus yn cynnwys asesiad teg a chytbwys o gynnydd 7

Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni gwelliannau yn ei holl feysydd blaenoriaeth 7

Mae'r trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol yn ategu trefniadau hunanwerthuso dibynadwy ond nid yw rhai agweddau ar werthusiad y Cyngor yn ddigon cadarn 14

Mae cynlluniau gwella'r Cyngor a'i drefniadau i gefnogi gwelliannau yn gadarn 17

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 20

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Gonwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 21

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig 22

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 25

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, ynghyd â gwaith a gynhelir ar ei ran gan Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r adroddiad hwn yn rhoi darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae tair prif adran i'r adroddiad, sy'n cwmpasu'r ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor) yn darparu ac yn gwerthuso gwasanaethau a ddarparwyd yn 2011-12, a'r ffordd y mae'n cynllunio gwelliannau ar gyfer 2012-13.

2 At ei gilydd, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad bod y Cyngor yn gwneud cynnydd da ar nifer o agweddau ar gyflawni ei raglen wella ac mae ei adroddiadau cyhoeddus yn cynnwys asesiad teg a chytbwys o gynnydd.

3 Mae rhan gyntaf ein hadroddiad yn canfod bod y Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni gwelliannau yn ei holl feysydd blaenoriaeth:

- mae perfformiad y Cyngor o ran atal digartrefedd wedi gwella;
- mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd ar ei Gynllun Iaith Gymraeg ac o ran hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru;
- mae perfformiad y Cyngor yn parhau i wella yn y rhan fwyaf o agweddau ar ei waith i helpu pobl yng Nghonwy i fod yn iach ac yn annibynnol;
- mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd rhesymol mewn perthynas â'i amcan i sicrhau bod pobl Conwy yn derbyn addysg a bod ganddynt sgiliau;
- mae dull y Cyngor o wella'r amgylchedd yn datblygu a gall ddangos cyflawniadau o ran lleihau canran y gwastraff trefol a anfonir i safleoedd tirlenwi;
- mae'r Cyngor yn parhau i gefnogi'r economi mewn cyfnod anodd;
- mae Conwy'n parhau i fod yn lle diogel i fyw ynddo.

4 Mae ail ran yr adroddiad yn canfod bod trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol y Cyngor yn ategu trefniadau hunanwerthuso dibynadwy ond nid yw rhai agweddau ar werthusiad y Cyngor yn ddigon cadarn.

5 Yn olaf, mae trydedd ran yr adroddiad hwn yn nodi ein barn ynghylch pa mor dda y mae'r Cyngor yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn gwneud trefniadau i gefnogi hynny. Daethom i'r casgliad fod cynlluniau gwella'r Cyngor a'i drefniadau i gefnogi gwelliannau yn gadarn. Yn benodol:

- mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliannau o dan y Mesur ac mae wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru; ac
- mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd boddhaol o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hasesiadau blaenorol.

# Argymhellion

6 Nid wyf yn gwneud argymhellion newydd eleni. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella a wnaethpwyd yn fy adroddiadau blaenorol. Amlinellir y cynigion hynny ar gyfer gwella yn fy llythyron asesiadau gwella a anfonwyd i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae'r llythyrau ar gael ar ein gwefan www.wao.gov.uk.

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

7 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur.

8 Gyda chymorth arolygiaethau yng Nghymru, sef Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf, gan ddefnyddio hunanasesiad y Cyngor ei hun.

9 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

10 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

11 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

# Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da ar nifer o agweddau ar gyflawni ei raglen wella ac mae ei adroddiadau cyhoeddus yn cynnwys asesiad teg a chytbwys o gynnydd

## Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni gwelliannau ym mhob un o'i feysydd blaenoriaeth

### Mae perfformiad y Cyngor o ran atal digartrefedd wedi gwella

12 Yng Nghymru, gwelwyd lleihad yn nifer y teuluoedd y derbynnir eu bod yn ddigartref o'r cyfraddau uchaf erioed yn 2004-05 hyd ddiwedd 2009 ond yna gwelwyd cynnydd graddol hyd 2012. Yng Nghonwy, gwelwyd tuedd debyg a gwelodd y Gwasanaeth Digartrefedd gynnydd yn nifer y bobl a oedd yn gofyn am gymorth yn 2011-12.

13 Gwelwyd gwelliant ym mherfformiad Conwy o ran y camau i atal digartrefedd yn 2011-12. Llwyddodd y Cyngor i atal digartrefedd (fel y'i mesurir gan ganran y teuluoedd digartref posibl lle yr ataliwyd digartrefedd am o leiaf chwe mis yn sgil camau gan y Cyngor) mewn 87 y cant o achosion, sy'n welliant sylweddol ar 72.2 y cant yn 2010-11. Bydd gwasanaeth digartrefedd y Cyngor yn destun adroddiad arall gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod 2013.

14 Un o flaenoriaethau'r Cyngor yw sicrhau cyflenwad digonol o dai fforddiadwy o ansawdd yn y marchnadoedd tai cymdeithasol, deiliadaeth gymysg a'r sector preifat. Yng Nghonwy, adeiladwyd 32 o dai fforddiadwy yn 2011-12, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sy'n llai na'r 76 o gartrefi a adeiladwyd yn 2010-11.

Yn ogystal â pharhau ei waith ei hun i annog adeiladu tai fforddiadwy newydd yn y sir, mae'r Cyngor hefyd yn gweithio'n agos â chynghorau eraill a phartneriaid i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy.

### Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd ar ei Gynllun Iaith Gymraeg ac o ran hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru

15 Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Dros amser fe fydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu Cynlluniau Iaith Gymraeg trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

16 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru i arolygu a chynghori ar weithrediad Cynlluniau Iaith. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro; yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen. Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro cynnydd ar ei Gynllun Iaith Gymraeg ac yn adrodd ar gynnydd i'r Comisiynydd.

17 Cyfeiria adroddiad 2011-12 y Comisiynydd i'r Cyngor at gynnydd sylweddol yn y meysydd canlynol:

- Mae'r Cyngor yn awyddus i hyrwyddo gweithle dwyieithog ac mae adnoddau wedi parhau i gael eu dyrannu i ddarparu Mewnrwyd ddwyieithog i'r staff. Mae'r tudalennau corfforaethol, er enghraifft, ar gyfer 10 o wasanaethau a ddefnyddir gan y staff bellach yn ddwyieithog ar y Fewnrwyd.

- Dim ond tair cwyn a daeth i law ynglyn â diffyg gwasanaethau Cymraeg yn ystod 2011-12 sydd, unwaith eto, yn welliant sylweddol ar ystadegau'r llynedd (cafwyd 15 o gwynion yn ystod 2010-11).

- Parhaodd y llwyddiant a welwyd y llynedd o ran hyfforddi staff a chynghorwyr i wella eu sgiliau Cymraeg yn 2011-12.

- Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd dau gwrs Gwella Iaith am gyfnod o 10 wythnos fel rhan o raglen gorfforaethol y Cyngor. Cynhaliwyd cyrsiau gofal cwsmeriaid/ymwybyddiaeth iaith dwyieithog penodol a chawsant eu hanelu eleni at staff y Gwasanaeth Datblygu Cymunedol.

- Mae'r Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau wedi datblygu Gwefan a Chyfrifiannell dwyieithog ar-lein ar gyfer Budd-dal y Dreth Gyngor/Budd-dal Tai. Hyd y gwyddom, dyma'r unig gyfrifiannell budd-daliadau ddwyieithog sydd ar gael i gwsmeriaid yn y Gogledd.

- Yn ystod 2011-12, treialodd swyddog iaith y Cyngor system i asesu sgiliau iaith ymgeiswyr am swyddi fel rhan o'r broses gyfweld, ond ar wahân i'r cyfweliad ffurfiol. Bu'r system hon yn llwyddiannus iawn, a bydd yn parhau yn ystod 2012-13.

- Mae staff y Cyngor sydd yn gweithio o fewn eu gwasanaethau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a dwyieithrwydd wedi bod yn adnodd gwerthfawr iawn i'r Cyngor.

18 Canfu'r Comisiynydd bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio yn gyson drwy'r Cyngor cyfan, ac i sicrhau bod ymwybyddiaeth a monitro cydymffurfiaeth â'r cynllun iaith yn gyson ar draws holl wasanaethau'r Cyngor.

19 Mae nifer yr ysgolion cynradd sy'n addysgu o leiaf 25 y cant o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu o 10 i 12 ysgol. Fodd bynnag, prin oedd y newid mewn ysgolion uwchradd ac mae grwp strategol ar ddwyieithrwydd mewn Ysgolion Uwchradd wedi ei sefydlu i adolygu'r cynllun iaith.

## Mae perfformiad y Cyngor yn parhau i wella yn y rhan fwyaf o agweddau ar ei waith i helpu pobl yng Nghonwy i fod yn iach ac yn annibynnol

20 Mae'r Cyngor yn parhau i gyflawni yn unol â'i nod o gynorthwyo pobl hŷn i gadw eu hannibyniaeth a'u lle yn y gymuned, prosesu hawliadau budd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor yn gywir, ac annog a hwyluso ffordd iach o fyw.

21 Yn Hydref 2012, cyhoeddodd AGGCC ei hadolygiad a'i gwerthusiad o berfformiad y Cyngor yn ystod 2011-12. Disgrifia adroddiad Cyfarwyddwr AGGCC[1] y newid a'r gwelliant cadarnhaol mewn gwasanaethau oedolion.

22 Canfu AGGCC fod y Cyngor wedi dangos ymrwymiad cryf i gynyddu nifer yr oedolion sy'n gwneud dewisiadau llawn ac yn rheoli eu cymorth personol, yn bennaf trwy well hyrwyddo a chynyddu'r nifer sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol. Cefnogir nifer gynyddol o oedolion dros 65 oed yn y gymuned trwy becynnau cymorth wedi'u targedu a adolygir yn brydlon.

23 Roedd cynyddu'r defnydd o daliadau uniongyrchol yn faes i'w wella yn adroddiad AGGCC y llynedd. Mae'r defnydd o daliadau uniongyrchol wedi cynyddu ac mae angen ei ddatblygu ymhellach. Cynhaliodd y Cyngor weithgarwch sylweddol yn 2011-12 i gefnogi'r cynnydd o daliadau uniongyrchol ac annibyniaeth. Roedd y gweithgarwch hyn yn cynnwys cymryd rhan yn y rhwydwaith dysgu am gymorth a gyfarwyddir gan ddinasyddion cenedlaethol a hyfforddiant i aelodau staff. Mae ei gynllun hunan-ariannu yn cynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth i weinyddu'r cynllun taliadau uniongyrchol a chyflogi gofalwyr. Gwelwyd hefyd mwy o gyfuno cyllidebau rhwng defnyddwyr gwasanaeth, sydd wedi cynyddu'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt.

24 Roedd AGGCC wedi nodi'n flaenorol bod angen datblygu gwasanaethau i ofalwyr ymhellach, ond bu datblygiadau sylweddol o ran cefnogi gofalwyr wrth i'r gwasanaethau cymdeithasol asesu anghenion nifer sylweddol fwy o ofalwyr yn 2011-12. Canfu AGGCC fod mynediad wedi'i strwythuro at wasanaethau ailalluogi yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol o ran lleihau dibyniaeth a galluogi nifer gynyddol o bobl i fyw gartref yn ddiogel. Mae ystod fwy o wasanaethau gofal dementia wedi galluogi mwy o bobl i gadw'n annibynnol gyda chefnogaeth. Roedd mynediad at wybodaeth, cyngor a chefnogaeth wedi'i ddatblygu'n dda ac roedd amrywiaeth briodol o ddeunydd ar gael mewn fformatau argraffedig ac electronig.

25 Y Cyngor oedd yn perfformio orau o blith holl gynghorau Cymru mewn perthynas ag oedi cyn rhyddhau pobl o'r ysbyty. Er bod trefniadau rhyddhau o'r ysbyty yn cael eu rhoi ar waith yn gyflym, nid oeddent yn gweithio'n dda bob amser. Canfu AGGCC fod rhai pobl yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn amhriodol gydag ychydig neu ddim cyfathrebu rhwng aelodau staff iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu trefnu neu eu hadfer ar sail frys, gan olygu risgiau i'r defnyddiwr gwasanaeth o ganlyniad. Mae rhyddhau diogel o'r ysbyty yn gyson yn faes i'w wella o ran perfformiad y Cyngor.

1 Adolygiad blynyddol o berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor a gynhelir gan AGGCC sy'n cynnwys asesiad o hunanwerthusiad Cyngor o'i berfformiad. Mae AGGCC yn rhoi gwerthusiad cyffredinol o berfformiad ac yn nodi meysydd lle y gwelwyd cynnydd a meysydd y mae angen eu datblygu.

26 Nododd AGGCC hefyd fod pwyslais y Cyngor ar ymyriadau byr a dwys yn golygu bod llai o bobl angen gwasanaethau mwy hirdymor. Gwnaed y lleihad hyn trwy symud oddi wrth fodelau gofal preswyl traddodiadol i ddulliau sy'n canolbwyntio mwy ar unigolion, ac mae hyn wedi caniatáu ailfuddsoddiad mewn mentrau fel ailalluogi, cyfleusterau gofal ychwanegol a chanolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig.

27 Canfuom fod trefniadau'r Cyngor ar gyfer gweinyddu budd-dal tai yn cefnogi gwelliannau. Dylai'r prosesu sicrhau bod taliadau amserol yn cael eu gwneud i'r bobl gywir ac mae'r gwasanaeth yn effeithiol ac yn ymatebol yn gyffredinol. Mae'r amser cyfartalog ar gyfer prosesu hawliadau budd-dal tai newydd yr un fath â chyfartaledd Cymru, sef 20 diwrnod, ac maent wedi gwella o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r amser prosesu cyfartalog ar gyfer ymdrin â hysbysiadau newid mewn amgylchiadau yn well na chyfartaledd Cymru. Penderfynwyd ar ganran uwch o hawliadau newydd o fewn 14 diwrnod o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r gweithgaredd atal twyll wedi cynyddu gyda nifer fwy o atgyfeiriadau, ymchwiliadau a sancsiynau llwyddiannus yn ymwneud ag achosion o dwyll o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae cyfanswm y ceisiadau i'w hailystyried neu i'w hadolygu, a chyfanswm yr apeliadau wedi lleihau. Ceir nifer fach o ddangosyddion lle mae perfformiad wedi gwaethygu yn ystod 2011-12; yn fwyaf nodedig mae canran y gordaliadau a ganfuwyd ac a adenillwyd wedi gostwng, ac mae'r gwasanaeth yn cymryd mwy o amser i ymdrin â cheisiadau y mae angen eu hailystyried neu'u diwygio, ac apeliadau.

28 Defnyddia'r Cyngor ystod o ddangosyddion lleol i farnu llwyddiant o ran annog a hwyluso ffordd iach o fyw. Dengys y mesurau perfformiad y mae'r Cyngor wedi'u dewis i adlewyrchu cynnydd yn erbyn yr amcan hwn ddarlun cadarnhaol ac mae'r dangosydd cenedlaethol ar y defnydd o gyfleusterau hamdden yn dangos bod 12 y cant yn fwy o bobl wedi defnyddio canolfannau hamdden a chwaraeon Conwy yn 2011-12 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd rhesymol mewn perthynas â'i amcan i sicrhau bod pobl Conwy yn derbyn addysg a bod ganddynt sgiliau

29 Gwnaethpwyd cynnydd mewn perthynas ag amcan y Cyngor y i sicrhau bod pobl Conwy yn derbyn addysg a bod ganddynt sgiliau. Mae'r Cyngor yn mesur cynnydd drwy fonitro camau gweithredu a dangosyddion perfformiad dethol y pennwyd targedau penodol yn eu herbyn. Roedd perfformiad y Cyngor wedi gwella mewn 11 o blith 21 o fesurau gwella allweddol. Ers i Estyn gynnal ei arolygiad ym mis Mawrth 2011 gan adrodd bod gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc Conwy yn dda, mae'r Cyngor wedi monitro'n rheolaidd y cynnydd ar weithredu pob un o argymhellion Estyn ar gyfer gwella.

30 Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi asesu perfformiad plant 11 oed yn ei ysgolion cynradd yn 2012 fel 'anfoddhaol'. Roedd cyfran y plant 11 oed sy'n cyflawni'r lefelau disgwyliedig mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth yn cyfateb i gyfartaledd Cymru, sef 82.6 y cant, ond mae hyn yn is na'r disgwyl o gofio bod lefelau amddifadedd yn ysgolion Conwy yn is na'r cyfartaledd. Mewn ysgolion

uwchradd, roedd perfformiad disgyblion 14 oed yn dda o gymharu ag ysgolion mewn rhannau eraill o Gymru lle ceir lefelau tebyg o amddifadedd. Mewn arholiadau allanol, roedd y darlun yn fwy cymysg. Roedd cyfran y disgyblion 16 oed a oedd yn cyrraedd y trothwy Lefel 2 (sy'n cyfateb i bum neu fwy o raddau TGAU da) yn parhau i wella a hynny'n gyflymach na chyfartaledd Cymru ac roedd yn y pedwerydd safle o blith holl gynghorau Cymru. Fodd bynnag, nid oedd digon o'r disgyblion a oedd yn cyrraedd y meincnod hwn yn cael gradd dda yn y pynciau craidd, sef mathemateg a Saesneg neu Gymraeg.

31 Parhaodd cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion yn ystod y flwyddyn academaidd 2011/12 i wella ac roeddent yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd Cymru. Mae'r ysgolion a'r Cygor yn cydweithio'n dda i reoli problemau ymddygiad. Ni chafodd unrhyw ddisgybl ei wahardd yn barhaol o ysgolion Conwy yn ystod 2011/12 ac mae nifer a hyd gwaharddiadau cyfnod penodol yn fach.

32 Adroddwyd gennym y llynedd bod gan ysgolion y Cyngor y cronfeydd ariannol mwyaf yng Nghymru ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2010-11. Gwelwyd rhywfaint o ostyngiad yn y cronfeydd yn ystod 2011-12 ond, yn £273 fesul disgybl, maent yn parhau i fod yn uwch nag mewn unrhyw gyngor arall. Er na ddechreuodd unrhyw ysgol y flwyddyn 2012-13 gyda diffygion, cariodd gymaint â 28 y cant gronfeydd ymlaen a oedd yn fwy na 10 y cant o'u cyllidebau dirprwyedig. Mae'r Cyngor yn parhau i bwyso ar ysgolion a chanddynt gronfeydd mawr i fuddsoddi rhagor ac mae'n rhag-weld y bydd gostyngiad arall o £140,000 yng nghyfanswm y cronfeydd yn 2013.

33 Yn ogystal, adroddwyd gennym y llynedd bod Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r fenter Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif i adlewyrchu'r gostyngiad yn y cyllid cyfalaf sydd ar gael. Roedd yn ofynnol i gynghorau gyflwyno strategaethau diwygiedig yn cwmpasu cyfnod o chwe mlynedd, lle y byddai'n ofynnol iddynt gyfrannu 50 y cant o'r cyfalaf angenrheidiol, yn hytrach na'r 30 y cant a fwriadwyd yn wreiddiol. Mae strategaeth ddiwygiedig y Cyngor wedi denu bron £9 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwella ansawdd adeiladau ysgolion mewn pedair ardal yn y sir. Mae'r swm hwn yn ychwanegol at yr £16 miliwn o gyfalaf llywodraeth Cymru a fydd yn cyfrannu at ailddatblygiad parhaus ysgol arbennig Conwy, sef Ysgol y Gogarth.

## Mae dull y Cyngor o wella'r amgylchedd yn datblygu a gall ddangos cyflawniadau o ran lleihau canran y gwastraff trefol a anfonir i safleoedd tirlenwi

34 Mae ymdrin â gwastraff yn elfen bwysig o waith y Cyngor o ran mynd i'r afael â'i amcan o sicrhau bod 'pobl yng Nghonwy yn byw mewn amgylchedd cynaliadwy'. Dywedasom yn A*droddiad Gwella Blynyddol* y llynedd fod y Cyngor, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi bod yn cynyddu ei weithgaredd ailgylchu ar garreg y drws ac yn 2011 cyflwynodd ei gynllun newydd ar draws y sir gyfan. Fel y rhagwelwyd, ni welwyd gwelliannau yn ei ddangosyddion perfformiad yn sgil y buddsoddiad hwn tan 2011-12. Llwyddodd y Cyngor i leihau cyfran y gwastraff trefnol a anfonwyd y safleoedd tirlenwi o 57.4 y cant yn 2010-11 i 45.7 y cant yn 2011-12. Roedd y gwelliant hwn mewn perfformiad yn well na thargedau'r

Cyngor ac mae cyfran y gwastraff trefol a gesglir ac a gaiff ei baratoi i'w ailddefnyddio a/neu ei ailgylchu hefyd yn uwch na chyfartaledd Cymru. Yn y cyfamser, mae'r Cyngor yn parhau i weithio â phedwar o gynghorau eraill y gogledd i greu'r adnoddau i drin gwastraff gweddilliol ac â thri chyngor arall i brosesu gwastraff bwyd. Mae gan y Cyngor ystod eang o fesurau lleol i farnu llwyddiant o ran gwella ansawdd yr amgylchedd yng Nghonwy a gwelwyd gwelliannau yn y rhan fwyaf o'r mesurau hyn sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr yn 2011-12. Am y drydedd flwyddyn yn olynol mae Cadw Cymru'n Daclus wedi dyfarnu mai Conwy yw'r sir lanaf yng Nghymru.

35 Cynllun rheoleiddio Ymrwymiad i Leihau Carbon y DU gyfan y prif gymhelliant y Cyngor i leihau ei allyriadau carbon deuocsid. Dirywiodd perfformiad y Cyngor yn 2011-12 ond mae gan y Cyngor darged i sicrhau gostyngiad o 25 y cant yn ei ôl troed carbon erbyn 2016-17. Mae'r Cyngor wedi cytuno ar gynllun rheoli carbon ac mae gwasanaethau wedi nodi targedau lleihau ynni lle y bo'n bosibl a dylai'r gwaith o gwblhau rhai prosiectau penodol i leihau allyriadau, fel y gwaith yn Venue Cymru, wella perfformiad yn 2013.

## Mae'r Cyngor yn parhau i gefnogi'r economi mewn cyfnod anodd

36 Mae'r Cyngor wedi pennu datblygu economaidd yn un o'i brif flaenoriaethau a gwelwyd llwyddiannau nodedig. Mae'r cynllun adfywio yng Nghyffordd Llandudno yn datblygu'n dda, mae Parc Eirias wedi codi proffil cenedlaethol Conwy drwy gynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau chwaraeon a digwyddiadau diwylliannol ac mae'r gwelliannau i ardal glan y môr a chanol tref Bae Colwyn yn parhau. Nododd y Cyngor fod nifer y twristiaid a oedd yn ymweld â'r sir gan aros dros nos yn ystod 2011-12 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a gwelwyd cynnydd yn yr amcangyfrif o wariant lleol gan dwristiaid o £596 miliwn i £623 miliwn.

37 Arhosodd y cyfraddau meddiannaeth ar gyfer unedau busnes yng Nghonwy yn uchel, sef ychydig dros 94 y cant. Mae partneriaeth datblygu gwledig Conwy wedi parhau i ddarparu ystod o gynlluniau sefydledig, fel cymorth i ffermwyr arallgyfeirio. Yn unol â thueddiadau ledled Cymru, mae nifer y busnesau a gefnogir yn yr ardal gan y Cyngor neu gan Lywodraeth Cymru wedi lleihau o 1,287 yn 2010-11 i 1,137 yn ystod 2011-12, a lleihaodd nifer y swyddi a grewyd o ganlyniad o 25 i 10.5. Rhoddodd y Cyngor grantiau i 18 o fusnesau newydd, a chefnogwyd 26 o fusnesau eraill gan arian cydgyfeirio o Ewrop. Roedd hyn yn golygu lleihad yn nifer y busnesau sy'n cael cymorth ariannol o 86 yn 2010-11 i 44 yn 2011-12.

38 O edrych arnynt gyda'i gilydd, awgryma'r ffigurau hyn fod y Cyngor yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol mewn amseroedd anodd a heriol ond, fel y dywedasom yn ein *Hadroddiad Gwella Blynyddol* diwethaf, nid yw'r mesurau y mae'r Cyngor wedi'u dewis yn ddigon penodol i ddangos cynnydd tuag at ei amcan gwella. Yn ei asesiad o'i berfformiad ei hun, nid yw'r Cyngor wedi defnyddio mesurau fel cyfraddau diweithdra lleol i helpu i asesu a yw ffyniant ei ddinasyddion yn gwella. Mewn cyferbyniad, mae gan 'Un Conwy', gweledigaeth Bwrdd Gwasanaeth Lleol Conwy ar gyfer dyfodol Bwrdeistref Sirol Conwy, ffocws llawer cliriach ar ganlyniadau sydd wedi eu canolbwyntio ar ddinasyddion ar gyfer economi ffyniannus, megis targed i leihau nifer y bobl yng Nghonwy sydd yn hawlio Lwfans Ceiswyr Gwaith am fwy na 12 mis.

## Mae Conwy'n parhau i fod yn lle diogel i fyw ynddo

39 Yn Adroddiad Blynyddol Conwy ar gyfer 2011-12, nodir fod data troseddau'r heddlu yn dangos bod Conwy, fel yn y pum mlynedd diwethaf, yn parhau i fod yn un o'r siroedd mwyaf diogel i fyw ynddi yng Nghymru a Lloegr. Fel rhan o'r strategaeth i sicrhau bod pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel, mae'r Cyngor, mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ddinbych, wedi cyflwyno nifer o fentrau i hyrwyddo strategaeth 'economi hwyr y nos', yn bennaf drwy gynllun gwarchod tafarndai newydd. Dewiswyd mesurau eraill gan Gonwy sy'n canolbwyntio ar gynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio llwybrau bws â chymhorthdal ac ni welwyd llawer o newid mewn perfformiad o gymharu â 2010-11.

40 Diogelwch ffyrdd yw'r mesur perfformiad allweddol arall a ddewiswyd gan y Cyngor i farnu ei lwyddiant o ran sicrhau bod Conwy'n fwy diogel. Yn 2011-12 cynyddodd nifer y bobl a gafodd eu lladd neu'u hanafu'n ddifrifol i 60 ond mae'r ystadegau hyn yn amodol ar amrywiadau blynyddol a dengys data ar gyfer y pum mlynedd diwethaf nad oes amrywiadau sylweddol yn y duedd at i lawr o ran y nifer sy'n cael eu lladd neu'u hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd yn y Gogledd.

## Mae'r trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol yn ategu trefniadau hunanwerthuso dibynadwy ond nid yw rhai agweddau ar werthusiad y Cyngor yn ddigon cadarn

41 Yn ein *Hadroddiad Gwella Blynyddol*, a gyhoeddwyd yn Ionawr 2012, deuthum i'r casgliad fod y Cyngor wedi mabwysiadu fframwaith a oedd yn sicrhau dull cyson o reoli perfformiad ar draws y sefydliad, a bod aelodau etholedig yn rhoi arweiniad cryf o ran darparu gwasanaethau a chraffu'n effeithiol er mwyn herio polisi a pherfformiad. Mae hyn yn parhau i fod yn wir. Mae ansawdd y wybodaeth am berfformiad a roddir i bwyllgorau craffu a'r adolygiadau o wasanaeth a gynhelir ddwywaith y flwyddyn o safon gyson dda. Rhoddir y cyfle i aelodau holi uwch swyddogion a herio a thrafod perfformiad yn adeiladol. Rheolir cyfarfodydd yn effeithiol, ac mae'r ystod o gwestiynau ac ansawdd yr herio yn dda.

42 Canfuwyd bod gan y Cyngor dîm polisi canolog cryf sy'n goruchwylio, yn cydgysylltu ac yn rheoli perfformiad yn weithredol. Yn gyffredinol mae staff y gwasanaethau yn cydnabod eu bod yn atebol am eu perfformiad ac maent yn deall sut y mae eu gwaith yn cyfrannu at gyflawni Amcanion Gwella'r Cyngor a blaenoriaethau corfforaethol.

43 Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd o dan y Mesur Llywodraeth Leol ac mae hefyd wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Rydym wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd bod Adroddiad ar berfformiad y Cyngor (yr Adroddiad):

- ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg i'w lawrlwytho o wefan y Cyngor, a gellir darparu fersiynau mewn Braille ac mewn ieithoedd eraill a gais;
- yn asesu perfformiad y Cyngor yn y flwyddyn ariannol flaenorol (2011-12) yn erbyn 134 o ddangosyddion ac yn nodi'n glir sut y mae'r Cyngor wedi ceisio gweithredu ei ddyletswyddau o dan y Mesur.
- yn cynnwys manylion perfformiad fel y'i mesurir gan yr holl ddangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol;
- wedi'i gyhoeddi cyn 31 Hydref 2012, sef y terfyn amser statudol;
- yn cynnwys ffocws clir ag iddo strwythur da ar gynnydd y Cyngor o ran cyflawni ei Amcanion Gwella;
- yn gryno ac wedi'i ysgrifennu'n dda, ac, ar gyfer mwyafrif yr Amcanion Gwella a bennwyd ar gyfer 2011-12: yn adrodd ar berfformiad sy'n seiliedig ar ganlyniadau, ac yn cysylltu'r Amcanion Gwella i'r tablau dangosyddion statudol a dangosyddion perfformiad allweddol.

44 Mae'r Adroddiad yn cynnwys crynodeb o berfformiad y Cyngor yn 2011-12 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac esboniad cryno o'r prif lwyddiannau a methiannau o ran cyflawni rhai o'r prif brosiectau a aseiniwyd i Amcanion Gwella'r Cyngor a blaenoriaethau strategol eraill a amlinellwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2008-12. O ran cynnydd, ceir cysylltiad â'r canlyniadau i ddinasyddion a gefnogir gan yr Amcanion Gwella, fel y nodir yn y cynllun cymunedol integredig 'Un Conwy 2012-25'. Yng nghorff yr adroddiad ceir rhestr lawn o fesurau sy'n gysylltiedig â phob un o'r wyth Amcan Gwella a'r blaenoriaethau strategol. Lle

na chyflawnwyd yr allbwn neu'r canlyniad, mae'r Adroddiad yn cynnwys sylwadau esboniadol cryno ac amlinelliad o'r hyn a gaiff ei wneud i wella perfformiad. Yn ogystal ceir crynodeb byr o'n *Hadroddiad Gwella Blynyddol* diwethaf.

45 Mae'r Adroddiad yn cynnwys crynodeb o waith partneriaeth y Cyngor ym mhob un o'r prif feysydd gwasanaeth. Fodd bynnag, disgrifiadol yw'r dadansoddiad o gynnydd yn bennaf, fel yr adran ar Wasanaethau Priffyrdd a Seilwaith, ac nid yw bob tro'n amlwg sut y mae preswylwyr wedi elwa'n uniongyrchol. Nid yw'r Adroddiad yn cyfeirio at y gorwariant yn 2011-12 ar y Gyllideb Cludiant Cartref i'r Ysgol, sydd wedi bod yn destun adroddiad pwysig diweddar ar y cyd rhwng gwasanaeth archwilio mewnol Conwy a Sir Ddinbych.

46 Mae adran olaf yr Adroddiad yn rhoi asesiad cynhwysfawr a chlir o gynnydd yn erbyn pob un o'r 41 o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol, a Chrynodeb o Berfformiad Corfforaethol gan ddefnyddio strwythur sy'n cwmpasu'r wyth Amcan Gwella. Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys manylion perfformiad y llynedd (lle y maent ar gael) ar gyfer pob un o'r dangosyddion, ynghyd â dadansoddiad o dueddiadau, cymhariaeth rhwng perfformiad 2011-12 a chyfartaledd Cymru, a safle'r Cyngor o gymharu â gweddill Cymru. Caiff pob dangosydd a mesur perfformiad ei liwio'n goch, yn felyn neu'n wyrdd i ddangos gwerthusiad y Cyngor o'r graddau y cafodd yr allbwn neu'r canlyniad bwriadedig ei gyflawni'n llwyddiannus yn ystod y flwyddyn.

47 Caiff pob Amcan Gwella ei gefnogi gan gyfres o weithgareddau a mesurau sy'n cael eu rheoli a'u cyflawni gan y maes gwasanaeth priodol, a chânt eu monitro drwy gydol y flwyddyn fel rhan o fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor. Canfuwyd bod yr Adroddiad Perfformiad yn cael ei gyflwyno'n glir ac yn hawdd i'w ddarllen o ran pob un o'r Amcanion Gwella. At ei gilydd, mae'r Adroddiad yn gytbwys ac yn gwneud sylwadau ar feysydd lle y bu'r cynnydd o ran cyflawni'r camau gweithredu yn araf neu lle y mae perfformiad wedi gwaethygu, yn ogystal â'r agweddau mwy llwyddiannus. Er enghraifft, o ran y dangosydd ar gyfer tai fforddiadwy, noda'r Cyngor fod y perfformiad yn is na'r targed ac amlinella pam mae hyn wedi digwydd.

48 Ym mis Mehefin 2012, cyflwynwyd adroddiad gennym ar ganlyniadau ein harchwiliad o gywirdeb sampl o ddangosyddion perfformiad y Cyngor. Er bod ein sampl yn llai eleni nag yn y gorffennol, roedd y canlyniadau'n foddhaol ac ni wnaethom gymhwyso unrhyw un o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol y Cyngor.

49 Fodd bynnag, ceir enghreifftiau o hunanwerthuso nad ydynt yn ddigon cadarn mewn gwasanaethau unigol. Mae adroddiad Cyfarwyddwr AGGCC[2], wedi dangos bod enghreifftiau lle nad yw systemau perfformiad y Cyngor wedi nodi methiannau mewn systemau monitro. Pan gafodd ei arolygu yn 2011, er enghraifft, nid oedd y gwasanaeth gwyliau preswyl byr wedi paratoi'r adroddiad adolygu gofal ers dwy flynedd. Mae adroddiad o'r fath yn un o brif

2 Adolygiad blynyddol o berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor a gynhelir gan AGGCC sy'n cynnwys asesiad o hunanwerthusiad Cyngor o'i berfformiad (fe'i gelwir yn aml yn 'Adroddiad y Cyfarwyddwr'). Mae AGGCC yn rhoi gwerthusiad cyffredinol o berfformiad ac yn nodi meysydd lle y gwelwyd cynnydd a meysydd y mae angen eu datblygu.

elfennau'r prosesau sicrwydd ansawdd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, mewn achosion eraill, mae'r Gwasanaethau Plant wedi cynnal archwiliadau ac wedi ymateb yn gadarnhaol i'w canfyddiadau. Enghraifft o hyn yw'r ffordd y cafodd argymhellion eu rhoi ar waith yn gyflym ar ôl yr adolygiad maethu yn ymwneud â chytundebau lleoli a'r broses gwyno.

50 Ar 28 Medi 2012, rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod ar gyfrifon 2011-12 y Cyngor. Yn ogystal, cyhoeddodd yr archwilydd penodedig ei *Lythyr Archwilio Blynyddol* ym mis Tachwedd 2012 - ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 3.

# Mae cynlluniau gwella'r Cyngor a'i drefniadau i gefnogi gwelliannau yn gadarn

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliannau o dan y Mesur ac mae wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

51 Er bod y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gyhoeddi eu cynlluniau gwella cyn gynted â phosibl ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol, dywedwyd yn ein llythyr asesu gwelliant at y Cyngor ym mis Medi 2012 fod y Cyngor, ar ôl etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2012, wedi penderfynu adolygu ei Amcanion Gwella i ganfod a allai gyflawni'r cyfan erbyn 2016-17 ac i edrych ar gyfres o senarios cyllido a phennu blaenoriaeth yr amcanion yn unol â hynny. Roedd y senarios yn amrywio o fân newidiadau i gyllidebau presennol i symud adnoddau o wasanaethau i ategu'r gwaith o gyflawni Amcanion Gwella. Cyhoeddodd y Cyngor y Cynllun Gwella ar ffurf drafft ym mis Mawrth 2012 ac, ym mis Hydref, mabwysiadodd y Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2012–17, ar ôl ymgysylltu â'r Cyngor etholedig newydd.

52 Canfu ein gwaith archwilio ac asesu fod 'Cynllun Corfforaethol 2012–17' (y Cynllun) y Cyngor yn bodloni gofynion y Mesur. Mae'r Cyngor wedi pennu sail resymegol glir ar gyfer dethol y meysydd y mae'n canolbwyntio ar eu gwella, yn seiliedig ar ei berfformiad presennol, barn rhanddeiliaid a phartneriaid a gweithgaredd ymgynghori diweddar gyda dinasyddion. Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu fersiwn Cymraeg o'r Cynllun ac wedi rhoi crynodebau ohono ar ei wefan. O wneud cais, mae'r Cynllun ar gael mewn fformatau gwahanol ac mewn ieithoedd eraill.

53 Ceir wyth o Amcanion Gwella yn y Cynllun sy'n ymwneud ag: addysg a sgiliau; teimlo'n ddiogel; tai; iechyd ac annibynniaeth; economi sy'n ffynnu; amgylchedd cynaliadwy; treftadaeth, diwylliant a'r Gymraeg; a bod pobl yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais. Mae'r Cyngor wedi nodi'n glir yr hyn y mae'r Amcanion Gwella yn ceisio'i gyflawni ac wedi cynnwys rhai manylion cyffredinol am yr adnoddau sydd ar gael, o ran refeniw a chyfalaf, i ategu'r gwaith o'u cyflawni.

54 Mae'r Cyngor wedi diffinio mesurau llwyddiant priodol, wedi pennu targedau addas ac wedi sefydlu data llinell sylfaen ar gyfer y rhan fwyaf o'i wyth Amcan Gwella. Mewn rhai achosion, mae cysylltiad clir a phenodol rhwng y mesurau a ddewiswyd a'r Amcan Gwella. Mae'r mesurau llwyddiant ar gyfer yr Amcan Gwella sy'n nodi bod 'pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel a phriodol', er enghraifft, yn canolbwyntio ar atal digartrefedd a chynyddu nifer y tai fforddiadwy a adeiladir ar gyfer pobl leol. Felly, mae'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio'i wella yn amlwg.

55 Yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (y Ddeddf) nodir gofynion penodol sy'n berthnasol i awdurdodau lleol yng Nghymru. Roedd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau ddatblygu a chyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol erbyn 2 Ebrill 2012. Mae cryn gyfatebiaeth rhwng y gofyniad i gynhyrchu Amcanion Cydraddoldeb a'r elfen 'Tegwch' y mae'n rhaid i awdurdodau ei hystyried wrth bennu amcanion gwella o dan y Mesur. Yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor

ceir gwybodaeth am waith cydraddoldeb y Cyngor, yn arbennig mewn perthynas â'i Gynllun Cydraddoldeb Strategol, ond nid yw'n nodi'n benodol sut y mae'r Cyngor wedi bodloni gofynion y Ddeddf o ran pennu ei Amcanion Gwella.

## Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd boddhaol o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hasesiadau blaenorol

56 Cydymffurfiodd y Cyngor â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod 2011-12 ac mae wedi gwneud cynnydd rhesymol yn y rhan fwyaf o'r meysydd ar gyfer gwella a nodwyd mewn llythyrau ac adroddiadau archwilio blaenorol.

57 Gwna'r Cyngor gynnydd boddhaol o ran sicrhau bod y cyfrifoldeb dros gywirdeb a chadernid y data perfformiad yn cael ei aseinio'n glir i bobl o fewn gwasanaethau a bod staff y mae cynhyrchu data'n rhan o'u gwaith yn llwyr ymwybodol o sut y dylid cadw cofnodion, gan gynnwys data perfformiad allweddol.

58 Fel rhan o'i gylch gwella ei hun, mae'r Cyngor wedi ystyried yr awgrymiadau ar gyfer gwella a gynhwyswyd yn ein hadolygiad diweddar o ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae sicrhau bod Pobl yng Nghonwy'n cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais yn un o brif ganlyniadau Cynllun Corfforaethol 2012–17. Mae gan y Cyngor enw da o ran ymgysylltu ac mae wedi gwneud hynny'n helaeth mewn perthynas â'r gyllideb a blaenoriaethau. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol gyfrannu a gwneud sylwadau.

59 Mae'r Cyngor wedi cynyddu cyfan y staff a gafodd adolygiad datblygu perfformiad. Yn 2011-12, cafodd ychydig dros 70 y cant o'r staff adolygiad o gymharu â 65 y cant yn 2010-11. Fodd bynnag, gwelwyd lleihad yn y nifer a fanteisiodd ar adolygiad mewn rhai meysydd gwasanaeth, yn arbennig y Gwasanaethau Rheoleiddio. Dim ond un o bob pedwar aelod o staff a gafodd arfarniad yn 2011-12 yn y gwasanaeth hwnnw. Bellach mae tîm Adnoddau Dynol y Cyngor yn targedu gweithgaredd at wasanaethau lle mae'r niferoedd sydd wedi manteisio ar adolygiad yn fach er mwyn helpu gwasanaethau i ddeall gwerth arfarniadau staff ac, yn ei dro, er mwyn cynyddu cyfran y staff sy'n cael adolygiad.

60 Er bod y Cyngor yn gwella ei broses cynllunio ariannol, gan fabwysiadu dull arloesol o nodi arbedion, yn y gorffennol mae'r Cyngor wedi cydnabod gwerth posibl sicrhau cysylltiad mwy pendant rhwng Cynllun Ariannol Tymor Canol cadarn a'r uchelgeisiau sy'n deillio o'i Gynllun Gorfforaethol newydd. Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu Fframwaith Ariannol Tymor Canol newydd ond nid yw'n darparu trosiad ariannol o gynlluniau strategol Conwy ar hyn o bryd i ddangos sut y mae'r rhain yn cyd-fynd â'i gilydd er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor.

61 Gwelwyd gorwariant ar rai prosiectau cyfalaf mawr, fel £1.3 miliwn ar adnewyddu ffordd a phont reilffordd Maesdu. Nid oedd y cynlluniau amlinellol ar gyfer y contract yn cynnwys rhai costau y gellid bod wedi'u rhag-weld a chafwyd problemau gweithredol eraill yn ystod y cyfnod adeiladu. Awgryma hyn nad oedd cyllidebau a chynlluniau'n cael eu hadolygu a'u monitro'n ddigonol pan oedd y prosiect yn datblygu. Dyfarnodd

y Cyngor y contract ar gyfer cyngor ar ddylunio yn seiliedig ar yr amser y byddai'r peiriannwyr yn ei dreulio yn hytrach na phris penodedig ar gyfer y contract. Caiff rhai contractau eu trefnu'n gywir a cheir rhai enghreifftiau o arferion da (fel y prosiect diweddar ym Mharc Eirias) ond mae angen gwella nifer o agweddau ar y broses gontractio, gan gynnwys y ffordd y defnyddir gweithdrefnau yn nifer o wasanaethau'r Cyngor.

62 Dywedasom yn *Adroddiad Gwella Blynyddol* y llynedd fod pryderon wedi codi ynghylch y ffordd y gweinyddwyd grant penodol ar gyfer y prosiect 'Forces for Good' gan y Cyngor ar ran Llywodraeth Cymru. Ymchwiliodd archwilwyr mewnol y Cyngor i'r amgylchiadau a arweiniodd at awdurdodi taliadau grant cyn i dderbynydd y grant wario'r arian y bwriadwyd i'r taliad ei gwmpasu. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod tystiolaeth o wendidau rheoli sylweddol o ran y ffordd y gweinyddwyd Grantiau Cyfalaf yn y Tîm Diogelwch Cymunedol mewn perthynas â'r prosiect. Mae'r Cyngor wedi llunio cynllun gweithredu i leihau'r risg o fethiant yn y dyfodol wrth weinyddu grantiau.

63 Yn sgil ein gwaith ar brosiectau cyfalaf, ni chanfu ein hadolygiad o ddiwylliant cydymffurfio Conwy unrhyw dystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio helaeth â pholisïau'r Cyngor, ond mae angen gwneud gwelliannau i rai rheolaethau. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- canfuwyd bod prosesau cynefino corfforaethol ar gyfer staff newydd a sicrhau eu bod yn ymwybodol o bolisïau yn dda, ond mae ansawdd y trefniadau cynefino ar lefel adrannol yn amrywio;
- ni chanfuwyd tystiolaeth o rwystrau diwylliannol i gydymffurfio â pholisïau ond mae angen gwella'r rheolaethau parhaus i sicrhau bod staff yn deall polisïau ac yn cydymffurfio â hwy.

64 Mae'r Cyngor yn monitro cynnydd ar y gwelliannau sydd eu hangen yn ofalus er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth yn y dyfodol â gweithdrefnau tendro'r Cyngor a'r gofynion cyfreithiol a gwell rheolaeth dros brosiectau mawr. Mae'r Cyngor eisoes wedi cymryd camau i wella llawer o'r prosesau hyn, gan gynnwys:

- sefydlu fforwm prosiectau a rhaglenni newydd i reolwyr;
- sefydlu'r Fforwm Contractau er mwyn gwthio gwelliant ymlaen mewn perthynas â chontractau sydd wedi eu seilio ar adeiladu a pheirianneg;
- cyflwyno hyfforddiant i reolwyr sy'n canolbwyntio ar gyflawni manteision yn sgil caffael allanol;
- neges gadarnach o'r brig ynghylch cydymffurfiaeth;
- cyfres o archwiliadau mewnol mewn meysydd sy'n peri risg.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr asesiad gwella ei lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Mae'r *Adroddiad Gwella Blynyddol* hwn yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu gan gynnwys unrhyw arolygiadau arbennig (o dan adran 24).

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau

.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Gonwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## Y Cyngor

Mae'r Cyngor yn gwario tua £256 miliwn y flwyddyn (cyllideb 2012-13). Mae hyn yn cyfateb i tua £2,220 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, roedd y Cyngor yn bwriadu gwario £45.2 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Yn 2011-12, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D ar gyfer Conwy oedd £850.59 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu bedwar y cant i £884.61 y flwyddyn ar gyfer 2012-13. Mae 71.5 y cant o dai Conwy yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 59 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 17 Annibynnol
- 14 Ceidwadwyr
- 12 Plaid Cymru
- 9 Llafur
- 5 Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- 1 Llafur a'r Blaid Gydweithredol
- 1 heb fod yn aelod o unrhyw blaid

Prif Weithredwr y Cyngor yw Iwan Davies. Fe'i cefnogir gan dri Chyfarwyddwr Strategol: Ken Finch; Andrew Kirkham; a Sasha Davies.

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad dros Gonwy yw:

- Janet Finch-Saunders - Aberconwy, Ceidwadwr
- Darren Millar - Gorllewin Clwyd, Ceidwadwr

Yr Aelodau Seneddol dros Gonwy yw:

- Guto Bebb - Aberconwy, Ceidwadwr
- David Jones - Gorllewin Clwyd, Ceidwadwr

Am ragor o wybodaeth gweler gwefan y Cyngor ei hun ar www.conwy.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Swyddfeydd y Cyngor, Bodlondeb, Ffordd Bangor, Conwy, LL32 8DU, neu dros y ffôn ar 01492 574000.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig

Y Cynghorydd Dilwyn Roberts
Arweinydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Bodlondeb
Conwy
LL32 8DU

Annwyl Gynghorydd Roberts

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

### Cydymffurfiodd y Cyngor â'i ddyletswyddau'n ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau ond mae angen iddo barhau i wella ei drefniadau i sicrhau ei ddefnydd o adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau;
- cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA/LASAAC. Mae'r cod hwn wedi'i seilio ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar

28 Medi 2012, cyhoeddais farn archwilio ddiamod ar y Datganiad o Gyfrifon yn cadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Cyflwynwyd adroddiad ar y prif faterion a gododd o'r archwiliad i aelodau o'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 25 Medi 2012.

- **Nodwyd un camddatganiad yn y datganiadau ariannol a oedd yn parhau heb ei gywiro**. Roedd hyn yn ymwneud â gwariant i gyflawni cyfrifoldebau'r Cyngor mewn perthynas â Phier Fictoria ym Mae Colwyn, nad oedd wedi cael ei gynnwys yn y datganiadau ariannol. Amcangyfrifwyd y dylai gwerth y ddarpariaeth hon fod wedi bod rhwng £600,000 ac £800,000. Gwnaeth y Cyngor ddatgeliad rhwymedigaeth wrth gefn yn y datganiadau ariannol.

- **Nid oes gennyf unrhyw bryderon sylweddol ynghylch yr agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu'r Cyngor a'r adroddiadau ariannol.** Mae'r polisïau a'r amcangyfrifon cyfrifyddu'n briodol ac roedd ansawdd y datganiadau ariannol drafft yn dda, ac roeddent yn ddiduedd, yn deg ac yn glir. Cafwyd rhai mân addasiadau i'r datgeliadau yn y datganiad ariannol.

- **Ni chawsom unrhyw drafferthion mawr yn ystod yr archwiliad hwn.** Darparwyd y rhan fwyaf o'r wybodaeth y gofynasom amdani yn amserol ac mewn modd defnyddiol ac ni chawsom ein cyfyngu o ran ein gwaith.

- **Ni nodwyd unrhyw broblemau sylweddol mewn perthynas â meysydd risg archwilio 2011/12.** Yn ystod ein harchwiliad, daethpwyd â mater yn ymwneud ag un grant penodol gan Lywodraeth Cymru i'n sylw. Gwnaeth y Cyngor daliadau grant i sefydliad lle yr honnir bod unigolyn wedi gwneud hawliadau twyllodrus yn ystod o flwyddyn. O ganlyniad, ad-dalodd y Cyngor £125,000 i Lywodraeth Cymru. Mae'r Heddlu yn ymchwilio i'r mater ar hyn o bryd, ac mae adran Archwilio Mewnol y Cyngor yn cynorthwyo yn hyn o beth. Oherwydd natur yr ymchwiliadau, ni allwn wneud rhagor o sylwadau ar hyn o bryd.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaethpwyd ar y cyfrifon yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ac eithrio'r materion a ddisgrifir isod, rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at feysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'u dangos hyd yma neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

- Nid yw'r Cyngor wedi sefydlu Cynllun Ariannol Tymor Canol hyd yma, sy'n dangos sut y caiff amcanion a blaenoriaethau strategol eu hariannu a'u cyflawni ac sy'n ategu'r Cynllun Corfforaethol.

- Roedd y sefyllfa o ran alldro terfynol ar 31 Mawrth 2012 yn cyd-fynd yn fras â'r gyllideb ddiwygiedig a gymeradwywyd gan y Cabinet. Yn sgil hyn arhosodd Balans y Gronfa Gyffredinol ar ychydig dros £3 miliwn; fodd bynnag, roedd angen rhyddhau cronfeydd wedi'u neilltuo er mwyn ariannu'n rhannol y gorwariant o £390,000 yn ymwneud â darparu gwasanaethau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol. Mae'r Cyngor yn disgwyl i'r gorwariant barhau yn ystod 2012-13. Mae tîm archwilio mewnol y Cyngor a'r pwyllgor archwilio wedi ymchwilio i'r rhesymau dros y gorwariant, ond mae angen i'r cyngor weithredu ar fyrder i wella costeffeithiolrwydd y ffordd y darperir y gwasanaeth.

- Mewn adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Awst 2012 gan KPMG, a fu'n gweithio ar y cyd â Swyddfa Archwilio Cymru, nodwyd bod angen gwneud nifer o welliannau i'r ffordd y mae'r Cyngor yn caffael ac yn contractio prosiectau a gwasanaethau. Mae'r Cyngor wedi rhoi cynllun gweithredu manwl ar waith ac yn adrodd ar gynnydd i'r Pwyllgor Archwilio. Rhaid i'r Cyngor bellach sicrhau ei fod yn mynd i'r afael yn briodol â'r argymhellion a godwyd i sicrhau bod yr holl wariant yn cyd-fynd â'r gweithdrefnau contract a'r rheolau sefydlog.

Cyhoeddais fy marn ar archwiliad o'r cyfrifon ar 28 Medi 2012. Nid wyf eto mewn sefyllfa i ardystio cau'r archwiliad ar gyfer 2011/12. Mae hyn oherwydd bod archwiliad 2010/11 yn parhau i fod ar agor oherwydd nifer o wrthwynebiadau heb eu datrys a gafwyd gan aelod o'r cyhoedd. Cafwyd gwrthwynebiadau yn 2011/12 hefyd ac rydym wrthi'n gwerthuso'r cwestiynau a godwyd i asesu a ydynt yn dod o fewn ein cylch gwaith ar gyfer ymchwilio iddynt a sut i'w datrys. Rwyf wedi cyflwyno adroddiad i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor ar y gwrthwynebiadau a ddatryswyd gennyf yn ystod y flwyddyn.

Disgwylir i'r ffi archwilio ar gyfer datganiadau ariannol archwiliad 2011/12 fod yn unol â'r ffi a gytunwyd ac a nodir yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol. Bydd ffioedd ychwanegol yn deillio o'r angen i ymdrin â nifer fawr o wrthwynebiadau gan aelodau'r cyhoedd.

Yn gywir

**Ian Pennington, Cyfarwyddwr, KPMG LLP**
**Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig, Anthony Barrett, Swyddfa Archwilio Cymru**

Mae gan etholwyr lleol ac eraill yr hawl i edrych ar gyfrifon y Cyngor. Pan fydd y Cyngor wedi cwblhau ei gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, fel rheol tua mis Mehefin neu fis Gorffennaf, mae'n rhaid iddo hysbysebu eu bod ar gael i bobl edrych arnynt Gallwch gael copïau o'r cyfrifon gan y Cyngor; gallwch hefyd weld pob llyfr, gweithred, contract, bil, taleb a derbynneb sy'n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar ôl iddynt gael eu darparu. Gallwch ofyn cwestiynau i'r archwilydd am y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn y mae'n ei harchwilio. Er enghraifft, gallwch roi gwybod i'r archwilydd os ydych o'r farn bod rhywbeth o'i le ar y cyfrifon neu am wastraff neu aneffeithlonrwydd o ran y ffordd y mae'r Cyngor yn cynnal ei wasanaethau. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar daflen Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyfrifon y Cyngor: eich hawliau*, ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk neu ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad ar gefn yr adroddiad hwn.

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13 ym mis Hydref 2012. Mae'r manylion ar gael ar wefan y Cyngor yn www.conwy.gov.uk Mae'r amcanion gwella fel a ganlyn:

| Prif amcanion gwella 2012-13 | Prif amcanion gwella 2012-13 |
|---|---|
| Mae pobl yng Nghonwy'n bwy mewn sir lle mae'r iaith Gymraeg a threftadaeth a diwylliant Cymru yn ffynnu. | Mae pobl yng Nghonwy'n bwy mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu. |
| Mae pobl yng Nghonwy'n iach. | Mae pobl yng Nghonwy'n iach ac yn annibynnol. |
| Mae pobl yng Nghonwy'n derbyn addysg ac mae ganddynt sgiliau. | Mae pobl yng Nghonwy'n derbyn addysg ac mae ganddynt sgiliau. |
| Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy. | Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy. |
| Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir gydag economi ffyniannus. | Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir gydag economi ffyniannus. |
| Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel ac addas. | Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel ac addas. |
| Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn cymuned deg, cynhwysol a hyddysg. | Mae pobl yng Nghonwy'n cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais. |
| | Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel. |

## Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ystod 2011-12 ar gael ar wefan y Cyngor yn www.conwy.gov.uk.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk